



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD AR BELLTER A GYNHALIWIYD DROS MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER 27 IONAWR 2021 AM 10.30AM

YN BRESENNOL:

Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff a Diogelu'r Cyhoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), S. Morgan (Economi a Menter), L. Phipps (Tai a Lleoedd), J. Ridgewell (Amgylchedd a Seilwaith), E. Stenner (Perfformiad a Gwasanaethau Cwsmeriaid) ac R. Whiting (Dysgu a Chyflawniad).

Ynghyd a:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

M. Lloyd (Pennaeth Seilwaith), Geraint Roberts (Arweinydd Tîm, Uned Drafnidiaeth Integredig), A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog S151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro), C. Evans (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor).

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod drwy wefan y Cyngor – Cliciwch yma i'w weld. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau eu derbyn ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET – 13 IONAWR 2021

PENDERFYNWYD, yn amodol ar wneud y diwygiad ar gofnod rhif 6 isod: Cynigion Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2021/22, tudalen 2, paragraff 6 sy'n cyfeirio at y cyfnod pedair

blynedd 2022/23 i 2025/23 (dim ond yn y Saesneg), dylai hynny ddarllen 2022/23 i 2025/26 a thudalen 3, paragraff 3)yn y ddwy iaith) sy'n cyfeirio at 79,754 eiddo ym Mand A i C, dylai'r ffigwr hwn fod yn 60,627. i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET - I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a oedd ar yr amserlen rhwng 13 Ionawr 2021 i'r 21 Ionawr 2021. Atgoffwyd yr Aelodau mai dogfen weithredol yw Blaenraglen Waith y Cabinet ac felly'n gallu newid.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi y byddai rhagolwg hirach o adroddiadau yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf, fodd bynnag, nid yw'n bosibl darparu cyfnod sylweddol yn y dyfodol gan fod y rhaglen yn aml yn agored i newid ac felly nid yw ar gael i'r cyhoedd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod y Blaenraglen Waith yn cael ei nodi. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

PENDERFYNIAD GWEITHREDOL NAD YW'N DESTUN GALW I MEWN

5. CYNLLUN ARGYFWNG BYSIAU (CAB) – CAIS I BOB CYNGOR GOFRESTRU AR GYFER CYNLLUN CAB 2

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cyd-destun ehangach, y cefndir a'r rhesymau dros y Cynllun Argyfwng Bysiau 2 (CAB2) i'r Cabinet, a gofynnodd am gytundeb yr awdurdod i ymuno â chynllun CAB 2.

Nodwyd bod pandemig Covid-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar deithio ar fysiau, gyda nifer y teithwyr yn gostwng yn sylweddol, ac roedd y gofyniad am ymbellhau cymdeithasol a gofynion glanhau ychwanegol yn ychwanegu beichiau a chostau pellach ar weithredwyr. Er bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi camu i'r adwy i gefnogi'r sector gyda chymorth ariannol sylweddol, mae'r math presennol o gymorth ariannol yn anghynaliadwy. Mae CAB2 yn darparu mecanwaith ar gyfer rheoli'r broses o adfer ac ail-lunio gwasanaethau bysiau er mwyn ymateb i effaith pandemig COVID-19.

Diolchodd y Cabinet i'r swyddog a'r Aelod Cabinet am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad yn drylwyr a chodwyd ymholiadau ynghylch sut y byddai'r diwydiant bysiau'n dod allan o'r pandemig a sut y byddai'r adferiad yn cael ei drin. Esboniodd swyddogion y bu effaith enfawr ar wasanaethau o ganlyniad i'r pandemig, ond bydd cyllid CAB 2 yn annog cydweithio i ddarparu gwasanaeth ac adnoddau gwydn i'r cymunedau y mae eu hangen fwyaf.

Atgoffwyd y Cabinet bod yr eitem hon wedi'i phennu fel eitem frys, ac felly nad yw'n destun Galw i Mewn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol ar y system bleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

- i) Cytuno ar egwyddorion cytundeb CAB 2 (Atodiad 2) er mwyn sicrhau cymorth ariannol (amodol) i'r sector bysiau ac i ffurfioli perthynas â Chyngor Sir Fynwy, fel llofnodwr ac Awdurdod arweiniol De Ddwyrain Cymru;
- ii) Dirprwyo'r awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Cymunedau i drafod a chytuno ar unrhyw ddiwygiadau pellach i'r cytundeb y gallai fod eu hangen;
- iii) Cefnogi'r galwad drwy'r awdurdod arweiniol am adroddiad pellach ar y cynigion i ddiwygio bysiau gan Lywodraeth Cymru, sy'n ymwneud â rheoli gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn y dyfodol.

6. MATER WEDI'I EITHRIO

Ystyriodd yr Aelodau dystysgrif prawf budd y cyhoedd gan y Swyddog Priodol a daeth i'r casgliad bod cydbwysedd budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gorbwysu budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, felly

PENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, dylid eithrio'r cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd y byddai'n debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig iddynt fel y nodwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol 1972.

7. STRYD PENTREBANE CAERFFILI – DEFNYDDIO PWERAU GPG

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y defnydd arfaethedig o'r broses Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG), a'r gofyniad ariannu cysylltiedig i hwyluso'r gwaith o ailddatblygu ochr ddeheuol Stryd Pentrebane, Caerffili.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Trwy bleidlais electronig cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD yn amodol ar y rhesymau a gynhwyswyd yn Adroddiad y Swyddog, bod yr argymhellion ym mharagraff 3.1 yn cael eu cymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50am.

Wedi'i gymeradwyo a'i llofnodi fel cofnod cywir, yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2021.

CADEIRYDD